Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Cwmdâr

**Y Sgwâr**
**Cwmdâr**
**Aberdâr**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF44 8UA**

**Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Sirol Cwmdâr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Sirol Cwmdâr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 261 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 195 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 37 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 17.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 4.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 1.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 16/01/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 14/06/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/06/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Sirol Cwmdâr yn ysgol hapus a chynhwysol lle mae staff a disgyblion yn trin ei gilydd â gofal a pharch. Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn eithriadol o dda, maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu ac yn croesawu ymwelwyr yn hapus. Ceir diwylliant cryf o ddiogelu yn yr ysgol, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn mwynhau eu profiadau dysgu ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth cryf ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn gweithio'n effeithiol gyda disgyblion mewn grwpiau bach, gan gynnig cymorth unigol gwerthfawr ar gyfer disgyblion bregus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol ac yn datblygu eu medrau darllen, ysgrifennu a rhifedd yn dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar fedrau siarad cryf. Maent yn siarad yn hyderus am eu gwaith a'u bywyd ysgol yn gyffredinol ac yn cyfrannu'n effeithiol yn ystod gwersi. Mae'r ysgol yn dechrau datblygu cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu yn ystod gwersi, ond mae cyfleoedd i lawer o ddisgyblion wella'u gwaith eu hunain a nodi eu camau nesaf mewn dysgu dros gyfnod, yn gyfyngedig.

Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn adnabod disgyblion yn dda. Maent yn ffurfio perthnasoedd cynnes ac anogol sy'n helpu disgyblion i deimlo wedi ymlacio a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae athrawon yn gosod disgwyliadau clir mewn gwersi, gan gynllunio ystod o brofiadau dysgu ysgogol sy'n cymell ac yn ysbrydoli bron pob un o'r disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn cael digon o gyfleoedd i wneud dewisiadau am eu dysgu a datblygu'n llawn fel dysgwyr annibynnol a chreadigol.

Mae arweinwyr yn darparu cyfarwyddyd clir ac yn modelu ymddygiadau proffesiynol yn effeithiol. Maent yn meithrin cydweithio yn llwyddiannus â staff cymorth i weithio'n dda fel tîm. Cânt gyfleoedd rheolaidd ar gyfer datblygiad proffesiynol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain a'u disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o fewn amgylchedd tawel, pwrpasol a hapus.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol ac wedi ymrwymo i greu amgylchedd cynhwysol sy'n meithrin dysgu a lles disgyblion.

## Argymhellion

A1 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion gyfeirio'u dysgu eu hunain, gan ddatblygu eu hannibyniaeth a'u creadigrwydd

A2 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar adborth, ac ymateb iddo, a nodi'r camau nesaf yn eu dysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o’r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY a’r rhai o deuluoedd incwm isel, yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn dda. Mae disgyblion yn adeiladu eu geirfa a ffyrdd o siarad yn systematig wrth iddynt symud trwy’r ysgol. Maent yn gwrando’n astud ar gyfraniadau pobl eraill ac mae eu medrau siarad a gwrando datblygedig yn eu cynorthwyo’n dda yn eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion hŷn yn datblygu i fod yn siaradwyr hyderus a huawdl, ac yn wrandawyr astud a myfyriol. Er enghraifft, maent yn rhagweld ac yn cyflwyno’u canfyddiadau wrth ymchwilio p’un ai rhew tir neu rew dŵr sy’n toddi’n gyflymach.

Mae’r disgyblion ieuengaf yn dysgu eu seiniau llythrennau yn dda ac yn magu hyder i’w hadnabod mewn geiriau cyfarwydd yn gyflym. Maent yn dechrau darllen yn annibynnol mewn ystod o gyd-destunau, fel labeli a chyfarwyddiadau syml o gwmpas yr ystafell ddosbarth. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 2, mae disgyblion yn darllen yn hyderus a gyda mynegiant a dealltwriaeth dda. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hŷn yn datblygu medrau darllen effeithiol sy’n ymestyn eu dysgu’n sylweddol ar draws y cwricwlwm. Maent yn darllen mewn ystod gynyddol o destunau ffuglen a ffeithiol ac yn ail-ddweud yn hyderus. Defnyddiant eu medrau brasddarllen a llithrddarllen datblygedig i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol yn gywir ar draws y cwricwlwm.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion iau yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Maent yn ffurfio llythrennau’n gywir, ac yn dechrau ysgrifennu at ystod ddefnyddiol o ddibenion yn gyflym. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn ysgrifennu llythyr wedi’i fynegi’n dda wrth wneud cais i fod yn ofodwr. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn cyflwyno’u gwaith yn dda ac yn defnyddio atalnodi priodol, gan ddefnyddio’u hysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn bwrpasol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio iaith berswadiol yn effeithiol i hysbysebu eu dyluniadau dinas arloesol a chynaliadwy.

Mae’r disgyblion ieuengaf yn dysgu geirfa sylfaenol yn Gymraeg yn dda ac yn ymateb i gyfarwyddiadau syml yn briodol. Maent yn dechrau defnyddio strwythurau brawddeg yn hyderus, er enghraifft wrth ddweud wrth y ‘meddyg’ ym Mlwyddyn 1 pa ran o’r corff sy’n brifo yn ystod chwarae rôl. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hŷn yn adeiladu ar eirfa a ddysgwyd yn flaenorol yn dda ac yn dechrau ymestyn patrymau brawddeg. Erbyn iddynt fod ym Mlwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn siarad Cymraeg yn hyderus a chymwys. Er enghraifft, maent yn defnyddio amser y gorffennol a chysyllteiriau i ymestyn eu brawddegau wrth ateb cwestiynau am y tywydd a gwyliau.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn datblygu dealltwriaeth gadarn o rif yn dda. Erbyn Blwyddyn 1, mae llawer o ddisgyblion yn adio a dyblu rhifau dau ddigid yn hyderus. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn datblygu dealltwriaeth dda o ffracsiynau sylfaenol trwy weithgareddau ymarferol. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae disgyblion yn meddu ar wybodaeth gref am fathemateg ar draws ystod eang o destunau. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cymhwyso'u medrau ar draws y cwricwlwm yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn creu graffiau bloc i ddangos eu hoff gemau o oes Fictoria, ac mae disgyblion Blwyddyn 6 yn creu model o dref gan ddefnyddio ciwboidau y maent wedi'u hadeiladu o rwydi.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd cryf wrth ddefnyddio ystod o fedrau digidol. Daw'r disgyblion ieuengaf i ddefnyddio'r medrau hyn yn hyderus yn gyflym at amrywiaeth o ddibenion, fel rheoli teganau rhaglenadwy a chreu graffiau syml. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio'u medrau digidol yn effeithiol i ymestyn eu dysgu. Maent yn fedrus wrth ddefnyddio'r e-bost, yn creu animeiddiadau, a datblygu codio.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Maent yn creu gwaith cerddoriaeth a chelf yn gysylltiedig â'u themâu testun ac yn cynllunio a dylunio'n bwrpasol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn dylunio offer dychmygus i fwydo adar. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i arbrofi, arloesi a defnyddio'u dychymyg wrth archwilio'r celfyddydau mynegiannol.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu eu medrau meddwl. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio patrymau brawddeg, fel 'Rydw i'n meddwl bod...' wrth ragfynegi trwy gyffwrdd beth sydd mewn bag. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'n arbennig o dda o ran rhesymu. Gallant esbonio'u meddwl yn huawdl ac yn rhesymegol i ddatrys problemau. Maent yn llai hyderus o ran cynllunio, arbrofi a gwerthuso'n annibynnol.

Mae disgyblion yn datblygu ystod eang o fedrau corfforol wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol. Mae disgyblion iau yn datblygu eu medrau echddygol bras yn dda, yn dysgu balansio ac yn rheoli eu cyrff yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn reidio beiciau a sgwteri yn hyderus yn yr ardal awyr agored. Mae disgyblion hŷn yn parhau i ddatblygu eu medrau yn effeithiol, yn enwedig mewn gemau tîm fel criced, pêl-rwyd a phêl-droed.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn gryf. Mae pob un o'r staff yn creu perthnasoedd gweithio cynnes ac anogol â disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae disgyblion yn hyderus ac yn mynegi barn yn glir am eu dysgu a'u hysgol. Mae llawer o ddisgyblion o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 6 yn cyfrannu'n frwdfrydig at wella'r ysgol trwy Senedd yr ysgol. Mae disgyblion yn teimlo y gwrandewir arnynt a'u bod yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, maent yn trefnu digwyddiadau i godi arian i'r ysgol brynu offer chwarae. Caiff disgyblion o bob oed eu cynnwys mewn ffurfio'r cwricwlwm, cyfrannu gwybodaeth, cwestiynau a syniadau at gynlluniau dysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig. Maent yn dangos diddordeb yn eu profiadau dysgu ac yn falch o'u gwaith. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn ymgysylltu wrth weithio'n annibynnol. Maent yn cydweithio'n effeithiol yn ystod gwaith pâr a gwaith grŵp, gan egluro dealltwriaeth a chynnig cyfraniadau perthnasol at drafodaethau.

Mae disgyblion yn gyson barchus a chwrtais. Mae pob un o'r disgyblion yn dangos lefelau uchel o gymorth a gofal am ei gilydd, ac mae eu hymddygiad yn ystod gwersi, amseroedd egwyl ac o gwmpas yr ysgol yn eithriadol o dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd ffordd iach o fyw, yn cynnwys pwysigrwydd gweithgarwch corfforol ac effaith diet ar y corff. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i aros yn ddiogel ar-lein. Maent yn cydnabod bod angen cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel a defnyddio gwefannau y gellir ymddiried ynddynt wrth bori.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol a gwybodus sy'n dangos ymwybyddiaeth dda o hawliau plant, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynaliadwyedd. Mae gwaith yr ysgol ar hawliau dynol yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'u hawliau eu hunain fel plentyn, a hawliau pobl eraill. Mae disgyblion yn dod yn ddysgwyr medrus a hyderus, ond nid ydynt yn cael cyfleoedd digonol i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain a'r penderfyniadau a wnânt.

Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r adborth a gânt gan staff sy'n eu helpu i wneud cynnydd yn eu dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau defnyddio hunanasesu ac asesu cyfoedion i nodi sut i wella'u gwaith. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i lawer o ddisgyblion wella'u gwaith yn annibynnol ar ôl adborth yn gyfyngedig.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol wedi cynllunio'i chwricwlwm i gyd-fynd yn agos ag anghenion a diddordebau disgyblion. Mae arweinwyr ac athrawon yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel, yn gallu cymryd rhan yn ystod lawn y gweithgareddau a gynllunnir. Caiff cynorthwywyr cymorth dysgu eu dosbarthu'n ystyriol ar draws yr ysgol, maent yn effeithiol yn eu rolau ac yn gweithio'n fedrus gyda disgyblion i gefnogi eu cynnydd.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu profiadau dysgu ag iddynt ehangder a dyfnder addas sy'n datblygu diddordeb, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn dda. O ganlyniad, mae disgyblion yn gallu cadw mewn cof ac esbonio'r hyn y maent wedi'i ddysgu. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn galluogi disgyblion i gyfeirio'u dysgu eu hunain, archwilio, ymchwilio, ac arloesi, yn ddigon aml. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a phrofiadau presennol disgyblion yn systematig ac yn gydlynus. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu sy'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu meddwl beirniadol yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn edrych ar ystod o dystiolaeth ac yn defnyddio rhesymeg i lunio casgliad wrth drafod materion amgylcheddol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion hŷn ddatblygu fel dysgwyr annibynnol, wedi'u harfogi i archwilio, ymchwilio ac arloesi.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthchweil i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd a chyfleoedd addas i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r cwricwlwm yn datblygu medrau digidol disgyblion yn dda. O ganlyniad, mae'r medrau hyn yn offeryn pwerus ar gyfer y disgyblion yn eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn animeiddio cylch bywyd y broga ac yn creu alawon gan ddefnyddio rhaglen gerddoriaeth yn ystod gwers wyddoniaeth.

Mae athrawon yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu diddorol sy'n cymell disgyblion, er enghraifft gwneud defnydd da o ymwelwyr a thripiau i ymestyn dysgu'r disgyblion, a datblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. I ymestyn eu gwaith testun, mae disgyblion yn elwa ar ymweliad â Big Pit i brofi sut beth oedd bywyd i bobl a oedd yn gweithio ar y ffas lo yng Nghymru, ac yn ymweld ag Amgueddfa Werin Cymru i astudio gwahanol agweddau ar fywyd Cymreig trwy'r oesau.

Mae'r ysgol yn integreiddio addysgu Cymraeg i'w chwricwlwm yn dda ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar fedrau llafaredd disgyblion wrth iddynt wneud cynnydd trwy gydol yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r staff yn creu amgylcheddau dysgu ysgogol a deniadol. Mae arddangosfeydd ystafell ddosbarth yn dathlu gwaith disgyblion tra'n darparu sgaffaldiau defnyddiol hefyd i sbarduno dysgu'r disgyblion. Mae staff yn defnyddio ystod o adnoddau o ansawdd uchel i gefnogi dysgu a phrofiadau disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn datblygu cyfleoedd dysgu pwrpasol yn yr awyr agored ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn defnyddio'r maes chwarae i greu gridiau cyfesurynnau mewn gwersi mathemateg, ac mae disgyblion iau yn defnyddio cae'r ysgol fel symbyliad ar gyfer eu gwaith ysgrifennu.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu adborth effeithiol ar lafar yn ystod gwersi, sy'n annog disgyblion i ymgysylltu'n dda a chanolbwyntio ar wella agweddau ar eu gwaith. Fodd bynnag, ceir cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu, gwella'u gwaith eu hunain a nodi eu camau nesaf.

Mae gan athrawon ddealltwriaeth glir o fannau cychwyn unigol disgyblion. Maent yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd trwy arsylwadau ac asesiadau i gynllunio camau nesaf disgyblion mewn dysgu yn briodol. Mae staff yn defnyddio ystod addas o asesiadau i fonitro cynnydd disgyblion a nodi'r rhai y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt, yn enwedig yn eu medrau darllen a mathemategol.

Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion a'u targedau yn y dyfodol gyda rhieni.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gynradd Sirol Cwmdâr yn ysgol gyfeillgar a gofalgar sy'n cefnogi datblygiad academaidd a chymdeithasol disgyblion yn effeithiol. Mae staff yn creu awyrgylch cynhwysol sy'n helpu disgyblion a theuluoedd i deimlo bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu meithrin. O ganlyniad, mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn dangos lefelau uchel o barch at ei gilydd, ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag ADY yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cadarn dros gyfnod. Mae'r

cydlynydd ADY yn sicrhau bod trefniadau pwrpasol er mwyn gallu nodi'n gynnar y disgyblion a fyddai'n elwa ar gymorth ychwanegol. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddarparu rhaglenni addas i gefnogi anghenion emosiynol a lles disgyblion, yn ogystal â datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae staff, rhieni a disgyblion yn cyfarfod i adolygu cynnydd yn rheolaidd a chynllunio'r camau nesaf yn y dysgu. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu hynod fedrus yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, a medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion.

Mae cymorth yr ysgol ar gyfer disgyblion bregus yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles emosiynol a'u datblygiad personol. Mae staff yn defnyddio ystod o strategaethau, gan gynnwys gohebiaeth gan rieni yn dda i nodi disgyblion sydd angen cymorth emosiynol. Maent yn defnyddio rhaglenni cymorth fel therapi yn seiliedig ar chwarae yn effeithiol i wella lles a dysgu disgyblion. Mae staff yn adnabod disgyblion yn eithriadol o dda ac yn fedrus o ran adnabod a diwallu eu hanghenion emosiynol.

Mae staff yn defnyddio ystod addas o brofiadau dysgu, gan gynnwys ymweliadau, i gyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth Gymreig. Er enghraifft, mae ymweliadau ag Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan yn ymestyn gwybodaeth disgyblion am hanes Cymru. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion berfformio a chymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol a chwaraeon. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn sioeau Nadolig ac Eisteddfod, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hyder.

Mae staff yn hyrwyddo gwerthoedd ar y cyd yr ysgol, er enghraifft parch, empathi a charedigrwydd, ac yn eu modelu'n effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol tuag at ddatblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion. Adlewyrchir hyn yn ymddygiad rhagorol y disgyblion, a'u gallu i wahaniaethu rhwng da a drwg o oedran cynnar. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am ystod o wahanol fathau o ffydd a diwylliannau. Mae gwasanaethau a gweithgareddau dosbarth gwerthfawr yn cynorthwyo disgyblion i fyfyrio ar eu credoau eu hunain a datblygu eu dealltwriaeth o ysbrydolrwydd.

Mae grwpiau arweinyddiaeth disgyblion yr ysgol yn weithgar ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r Pwyllgor Eco yn cefnogi gwaith yr ysgol, gan arwain gwasanaethau yn effeithiol i hyrwyddo lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff.

Mae'r ysgol yn helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn dda, ac yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am anghenion a hawliau pobl eraill, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae llawer o ddisgyblion yn cydnabod bod gan bob plentyn yr hawl i gael ei drin ag urddas a thegwch, cael ei ddiogelu, datblygu ei lawn botensial a chymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Mae arweinwyr yn ymgorffori diwylliant o ddiogelu pwrpasol, ac mae pob un o'r staff yn deall ac yn gweithredu eu cyfrifoldebau'n effeithiol. O ganlyniad, mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer monitro ac olrhain presenoldeb, sy'n cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion ar draws yr ysgol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn angerddol a gwybodus am sut gall yr ysgol wneud gwahaniaeth yn y gymuned leol. Mae ganddi weledigaeth glir sy'n cael ei rhannu gan bob un o'r staff a'r llywodraethwyr, gan sicrhau bod Ysgol Gynradd Sirol Cwmdâr yn ysgol hapus a chynhwysol.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o brosesau monitro addysgiadol i werthuso gwaith yr ysgol, gan nodi ei chryfderau a'i meysydd i'w datblygu yn gywir.

Mae uwch arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthchweil i staff ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth yn llwyddiannus. Ceir strwythur arwain clir gyda chydbwysedd effeithiol rhwng rolau diffiniedig a gwaith tîm ar y cyd. Mae pob aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn meddu ar ddealltwriaeth dda o waith pobl eraill ac maent yn cefnogi staff yn dda.

Yn yr un modd, mae staff ar draws yr ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn rhannu uchelgais ar y cyd i gyflawni'r deilliannau gorau posibl ar gyfer disgyblion yn yr ysgol.

Mae arweinwyr yn modelu a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol yn effeithiol. Maent yn gweithio'n dda fel tîm ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ethos cyffredinol yr ysgol. Maent yn gosod disgwyliadau uchel iddyn nhw eu hunain, eu cydweithwyr a'r disgyblion. Maent yn modelu cydweithio effeithiol ac yn hyrwyddo ymagwedd gydweithredol at bopeth a wnânt. Mae'r cydweithio hwn yn cynnwys llu o gyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol cynhyrchiol, a rhannu arfer dda rhwng arweinwyr, athrawon a staff cymorth, sy'n cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion.

Mae uwch arweinwyr yn darparu cymorth gwerthfawr i helpu aelodau staff i wneud gwelliannau i'w harfer. Er enghraifft, maent yn defnyddio model mentora a hyfforddi i gynorthwyo staff, sydd wedi gwella safonau addysgu a dysgu.

Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid grant penodol yn effeithiol i sicrhau cymorth buddiol ar gyfer disgyblion a nodwyd. Er enghraifft, mae arweinwyr yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn dda i ddarparu ystod o strategaethau ymyrraeth i gynorthwyo disgyblion i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd a rhoi cymorthdaliadau ar gyfer tripiau i ddileu rhwystrau rhag dysgu a achosir gan dlodi.

Mae'r corff llywodraethol yn dod â phobl at ei gilydd o ystod eang o gefndiroedd sydd â set medrau eang y mae arweinwyr yn ei defnyddio'n effeithiol i lywio gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae'r llywodraethwr cyswllt ar gyfer ADY yn gweithio'n agos gyda'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol ac wedi trefnu ymweliadau ag ysgolion eraill sydd wedi cynorthwyo arweinwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwygio ADY.

Mae llywodraethwyr yn hynod gefnogol i'r ysgol ac wedi ymrwymo i gefnogi lles staff a disgyblion. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau statudol, er enghraifft o ran eu rôl yn ymgorffori diwylliant diogelu cadarnhaol. Maent yn sicrhau bod gan yr ysgol bolisi clir i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae llywodraethwyr yn meddu ar wybodaeth gadarn am waith yr ysgol a'i effaith wrth sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer pob disgybl. Mae llawer ohonynt yn ymgymryd â gweithgareddau monitro a hunanwerthuso, er enghraifft, cymryd rhan mewn craffu ar lyfrau, gwrando ar ddysgwyr a theithiau dysgu. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol ac maent yn dechrau nodi meysydd i'w datblygu a herio arweinwyr yn briodol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  05/08/2024